Medicines & Healthcare products Regulatory Agency

MHRA

# MEDDYGINIAETHAU OPIOID A'R RISG O GAETHIWED

Nod y daflen ddiogelwch hon yw eich helpu i ddefnyddio meddyginiaethau opioid yn ddiogel. Cadwch hi mewn lle diogel os gwelwch yn dda.

Gall cleifion, teulu, ffrindiau a gofalwyr chwarae rhan bwysig yn y defnydd diogel o'r meddyginiaethau hyn ac wrth leihau'r risg o niwed. Rhannwch y wybodaeth hon gyda nhw.

## Beth yw meddyginiaethau opioid a beth yw'r risg gyda nhw?

Mae opioidau yn fath o feddyginiaeth sy'n helpu i leddfu poen. Maent yn effeithiol iawn dros gyfnodau byr, i leddfu poen cymedrol i ddifrifol. Maent hefyd weithiau'n cael eu rhagnodi am gyfnodau hir, i leddfu poen mewn cyflyrau difrifol. Mae enghreifftiau o opioidau yn cynnwys codin (gan gynnwys co-codamol), tramadol, ffentanyl a morffin.

Mae gan opioidau risg ddifrifol o gaethiwed, yn enwedig gyda defnydd hirdymor. Dylai'r unigolyn a ragnododd opioid neu'ch fferyllydd esbonio pa mor hir y mae'n ddiogel i chi gymryd eich meddyginiaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio opioidau yn ddiogel, a rhestr lawn o sgîl-effeithiau posibl, darllenwch y Daflen Wybodaeth i Gleifion (PIL) a ddaeth gyda'ch meddyginiaeth, a'i chadw wrth law.

## Sut alla' i gymryd fy meddyginiaeth opioid yn ddiogel?

Cymerwch y feddyginiaeth yn ôl y cyfarwyddyd yn unig.

- **Peidiwch** â chynyddu'r dos na chymryd dos ychwanegol.
- **Peidiwch** â chymryd unrhyw feddyginiaethau eraill sy'n cynnwys opioidau i "ychwanegu" at leddfu poen.
- **Peidiwch** â chymryd meddyginiaethau opioid os ydych chi'n feichiog heb gyngor iechyd proffesiynol.

**Peidiwch â gwneud unrhyw un o'r rhain heb gyngor** gan yr unigolyn a ragnododd eich meddyginiaeth, neu gan fferyllydd. Gall cymryd mwy nag y dylech arwain at orddos.

**Efallai y bydd angen monitro babanod a anwyd i fenywod a gymerodd opioidau** yn ystod beichiogrwydd yn ofalus am effeithiau diddyfnu ar ôl genedigaeth. Siaradwch â'ch meddyg neu fydwraig os ydych chi'n poeni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich meddyginiaeth opioid neu sgîl-effeithiau, neu os nad ydych chi'n deall sut i gymryd eich meddyginiaeth, **siaradwch â** 'r unigolyn a ragnododd eich meddyginiaeth opioid neu â fferyllydd. Daliwch i siarad â nhw am eich poen – efallai y bydd gwahanol driniaethau a all helpu.

- **Peidiwch â gadael i eraill** gymryd unrhyw feddyginiaethau opioid a roddir i chi. Mae eich meddyginiaeth wedi'i rhagnodi neu ei hargymell yn benodol i chi gan eich meddyg neu fferyllydd a gall fod yn beryglus os caiff ei chymryd gan bobl eraill – gallai hyd yn oed achosi gorddos angheuol.
- **Cadwch feddyginiaethau allan o olwg a chyrraedd plant bob amser**.

## Sut ydw i'n gwybod os ydw i'n mynd yn gaeth?

Gall caethiwed ddigwydd yn raddol. Gall wneud i chi deimlo nad ydych bellach yn rheoli faint o feddyginiaeth y mae angen i chi ei chymryd neu pa mor aml y mae angen i chi ei chymryd. Efallai y byddwch chi'n teimlo bod angen i chi barhau i gymryd eich meddyginiaeth, hyd yn oed pan nad yw'n helpu i leddfu'ch poen.

Os yw'ch poen yn dod yn anodd ei reoli, **siaradwch â'ch meddyg**. Efallai bod eich corff wedi stopio synhwyro effaith lleddfu poen eich opioid. Gelwir hyn yn **'oddefgarwch opioid'**. Gallai fod yn arwydd rhybuddio cynnar eich bod mewn perygl o ddod yn gaeth.

Trowch drosodd am arwyddion eraill o gaethiwed >

Mae'r daflen hon wedi'i chynhyrchu gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), asiantaeth weithredol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o drafodaeth o'r risgiau gyda meddyg, nyrs neu fferyllydd. Cadwch hi yn ddiogel rhag ofn y bydd ei hangen arnoch

Fersiwn 2: Awst 2021

Hawlfraint y Goron 2021

**Mae arwyddion y gallech fod yn gaeth i opioidau** yn cynnwys:

- Ysfa am y feddyginiaeth
- Teimlo bod angen i chi gymryd mwy o feddyginiaeth nag a ragnodwyd, neu fwy nac sydd ar y cyfarwyddiadau ar y pecyn
  - er bod y feddyginiaeth yn achosi effeithiau annymunol ar eich iechyd cyffredinol (er enghraifft, os ydych wedi sylwi ar rai o'r sgîl-effeithiau diddyfnu yn yr adran nesaf)
- Teimlo bod angen i chi gymryd meddyginiaethau ychwanegol sy'n cynnwys opioidau neu feddyginiaethau lliniaru poen arall
- meddyginiaethau i gyflawni'r un rhyddhad
- Cymryd meddyginiaethau opioid am resymau eraill heblaw poen: er enghraifft, 'i beidio cynhyrfu' neu 'i'ch helpu chi i gysgu'
- Profi sgîl-effeithiau diddyfnu pan fyddwch chi'n rhoi'r gorau i gymryd y feddyginiaeth yn sydyn (gweler isod).

**Os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw un o'r uchod, siaradwch â'ch meddyg neu fferyllydd**.

## Sut alla' i roi'r gorau i gymryd fy meddyginiaeth opioid yn ddiogel?

Os ydych chi wedi bod yn cymryd eich meddyginiaeth opioid ers amser maith, peidiwch â rhoi'r gorau i'w chymryd yn sydyn gan y gallai hyn achosi sgîl-effeithiau diddyfnu annymunol. Mae'n bwysig cael yr help a'r gefnogaeth gywir pan fyddwch chi'n barod i roi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth.

**Siaradwch â'ch meddyg, nyrs neu fferyllydd.** Byddant yn gallu eich helpu i ddod oddi ar eich meddyginiaeth opioid yn araf i leihau sgîl-effeithiau diddyfnu annymunol. Gall dod oddi ar opioidau yn ddiogel gymryd amser hir. Mae pawb yn wahanol. Ewch ag unrhyw opioidau nas defnyddiwyd yn ôl i fferyllfa i'w gwaredu'n ddiogel.

**Gall sgîl-effeithiau diddyfnu** gynnwys cyfuniad o'r canlynol:

- Cryndod
- Dolur rhydd
- Anhawster cysgu
- Chwysu
- Poen eang neu fwy o boen
- Poenau corff
- Anniddigrwydd a chynnwrf
- Cyfog a chwydu

Os ydych chi'n profi unrhyw un o'r rhain, siaradwch â'r unigolyn a ragnododd eich meddyginiaeth neu fferyllydd.

## Beth allai ddigwydd os ydw i wedi cymryd gormod o feddyginiaeth opioid?

Gelwir cymryd gormod o feddyginiaeth opioid yn orddos, p'un a yw'n fwriadol ai peidio. Gall hyn fod yn ddifrifol iawn a gall achosi marwolaeth.

**Mae rhai o arwyddion gorddos** yn cynnwys:

- Dryswch neu rithwelediadau
- Lleferydd aneglur
- Gwefusau neu ewinedd sy'n las neu'n borffor
- Cydsymudiad neu gydbwysedd gwael
- Bod yn anymatebol neu'n anymwybodol
- Chwyrnu trwm neu anarferol
- Anhawster anadlu neu ddim yn anadlu
- Cannwyll y llygaid yn fach iawn

Dylai eich teulu, ffrindiau a gofalwyr wybod yr arwyddion hyn fel y gallant weithredu ar unwaith.

**Os ydych chi'n meddwl eich bod chi neu rywun arall wedi cymryd gormod o'u meddyginiaeth opioid, ffoniwch 999 ar unwaith**.

Os ydych chi'n meddwl eich bod yn profi unrhyw sgîl-effeithiau o'ch meddyginiaethau opioid, gallwch roi gwybod am y rhain yn uniongyrchol i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ar www.gov.uk/yellowcard, drwy'r apiau rhad ac am ddim ('Yellow Card Scheme' yn y Google Play Store neu 'Yellow Card – MHRA' yn yr Apple App Store), neu drwy ffonio'r llinell ffôn rhad ac am ddim (0800 731 6789).

Mae'r daflen hon wedi'i chynhyrchu gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), asiantaeth weithredol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o drafodaeth o'r risgiau gyda meddyg, nyrs neu fferyllydd. Cadwch hi yn ddiogel rhag ofn y bydd ei hangen arnoch

 Hawlfraint y Goron 2021